

CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 17 Mai 2016 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Trefor Jones, John T Rowlands, Geraint Owen, Iona Phillips, Ffion Roberts, Hugh Williams, Ifan Rowlands (½ y cyfarfod), Cynghorydd Llinos Huws

Ymddiheuriadau Glyn Hughes, Peredur Hughes, Arthur Jones, Cadeirydd Owain Owen

Ychwanegol

Ethol Cadeirydd ac Is-Cadeirydd

Roedd y Cadeirydd Ymadawol yn sâl a'r Is-gadeirydd ddim yn gallu fod yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod felly cymerwyd Geraint Owen y Gadair (fel cyn Cadeirydd) ar gyfer ethol Is-gadeirydd. Yn unfrydol penodwyd Mrs Ffion Roberts fel Is-gadeirydd am y cyfnod 2016-2018.

Cymerwyd Mrs Roberts y Gadair am weddill y cyfarfod.

1 Cofnodion cyfarfod Mawrth / Ebrill 2016

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Mawrth 2016 gyda Hugh Williams yn cynnig a Trefor Jones yn eilio.

Nid oedd wedi bod yn bosib cael quorum i gyfarfod Ebrill, felly doedd na ddim cyfarfod.

2 Datgan diddordeb : Cynghorydd Llinos Huws (eitem 4) – symydwyd yr eitem i diwedd yr agenda er mwyn i Cyng Huws aros am gweddill y cyfarfod a gadael cyn trafod y Felin.

3 Ceisiadau Cynllunio

47C148 – Cais llawn i godi sied amaethyddol ar dir yn / Full application for the erection of an agricultural shed on land at : *Glangors, Llanbabo*

Dim gwyrthwynebiad i'r cais yma.

5 Charcoal kiln : Tai Crwn

Roedd Simon Hunt (gynt o CSYM a Choed Cymru) wedi e-bostio'r Clerc ynglŷn â'r kiln lloggi charcoal roedd yn ddarn o'r prosiect Tai Crwn. Roedd y kiln bellach wedi ei fenthyg i James Carpenter i wneud charcoal ar yr amod i ddanfôn rhywfaint i'r Felin am y fenthyg. Roedd Simon bellach wedi gadael CSYM ag yn holi os gallai'r kiln aros gyda James ag rhoi'r trefniad ar lawr mwy pendant.

Roedd Lloyd Jones o'r Felin yn datgan nad oedd wedi cael digon o charcoal dan y trefniant yma. Roedd gan o rhywun dan sylw i wneud charcoal yn y Felin (Huw Roberts) ag yn gofyn os cytunwyd i'r kiln ddod yn ôl i'r Felin yn cyfle gystal ag oedd o pan aeth o i Mr Carpenter.

Penderfynwyd yn unfrydol ofyn i Mr Hunt drefnu i'r kiln dod yn ôl i'r Felin.

6 Fees Neuadd Bentref Llanddeusant

Trafodwyd prisiau llogi Neuadd Bentref Llanddeusant a penderfynwyd i cadw fel yr oeddynt.

7 Archwilio Cyfrifon 2015-16

Roedd y llyfrau wedi cael Archwiliad Mewnol a nawr yn barod i cwblhau ffurfleni ar gyfer yr Archwiliad.

CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

8 Lonydd Tref Alaw

Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at CSYM ynglŷn â chyflwr drwg lonydd yr ardal. Roedd Mr Steven Jones o'r adran priffyrdd yn disgwyl dallt lle bu'n cael ei thrin yn fuan. Adroddwyd Cyng Huws bod arian yn brin iawn gyda thoriadau ariannol.

9 Insiwrans

Derbyn pris £367.57 i adnewyddu'r polisi insiwrans. Penderfynwyd holi Zurich yn bellach os bu'n bosib cael Ffrindiau Llynonn ar y polisi fel sub-committee.

4 Melin Llynonn : Datganiad o Ddiddordeb

<http://www.ynysmon.gov.uk/empty-nav/hysbysiadau-cyhoeddus-a-thendrau/cyngor-sir-ynys-mn-yn-gwahodd-cynigion-ar-gyfer-y-gwaith-o-reoli-tri-ased-treftadaeth-yr-ynys-yn-y-dyfodol-llys-biwmares-carchar-biwmares-a-melin-llynonn/128598.article?redirect=false>

https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/search/show/search_view.aspx?ID=APR131671

<http://www.anglesey.gov.uk/empty-nav/official-notices-and-tenders/anglesey-county-council-is-inviting-proposals-for-the-future-management-of-three-of-the-islands-heritage-assets-beaumaris-courthouse-beaumaris-gaol-and-melin-llynonn/128597.article?redirect=false>

https://www.sell2wales.gov.wales/search/show/search_view.aspx?ID=APR131671

Roedd y Clerc wedi edrych ar y safle sell2wales.gov ond nad oedd wybodaeth am gyfle'r Felin yno. Mae'r wybodaeth ariannol yn dangos bod y safle'n rhedeg ar golled sylweddol bob flwyddyn.

Yn dilyn lot o drafodaeth penderfynwyd na fydd yn ymarferol i'r Cyngor Cymuned rhoi cais i mewn i gymryd rhedeg Safle'r Felin drosodd ond diddordeb i drafod gyda phobl eraill ac i weithio gydag unrhyw ymgeisydd llwyddiannus.

Er bod yna grantiau ayyb i helpu tuag at ariannu ag adnewyddu'r safle, teimliad Cynghorwyr oedd bod y fenter angen rhywun brwdfrydig gyda digon o syniadau ag egni i redeg busnes llwyddiannus.

Taliadau:	I mewn Allan	CSYM – Precept 2016/17 Clerc (£1700 + costau £300) Neuadd Bentref Llanddeusant : rhent John D Roberts – Archwilio mewnol 2014-15 Cylch Meithrin Llanfaethlu Y Rhwyd	£1,600 £2,000 £165 £65 £100 £100	27.4.16
------------------	-----------------	--	---	---------

Post/ebost:

Cylch Meithrin Llanfaethlu	Diolch am y rhodd
Medrwn Môn	Dan do Môn
Horizon Nuclear Power	Dewch draw i ddweud eich dweud : Cemaes 12-2pm 16.5.16 (ag eraill)
Anglesey & Gwynedd Joint LDP	Wybodaeth ynglŷn ag Archwiliad
Alzheimer's Society	Ochr yn Ochr – helpu pobl yn Môn sydd â dementia i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau
CSYM : Penderfyniadau Cynllunio	47C29B : stablau yn <i>Rectory, Llantrisant</i> – Caniatâd 47C147 : addasu ag ehangu <i>Bronallt, Llanddeusant</i> – Caniatâd
Dat Econdev	Digwyddiad Meet the Buyer Event
Fosterning Maethu	Pythefnos Gofal Maeth / Foster Care Fortnight
UnLlais Cymru	Wybodaeth am hyfforddiant Cylchlythyr oddi wrth Older People Wales Commissioner Smarter Energy Future for Wales Ombudsman's Casebook – Issue 24
Planning Aid Wales	Wales Planning Conference, 9 th June 2016
CAB Môn	Peoples Forum comes to Beaumaris
Events @ SLCC	Change your community for the better The EGM explained News Bulletin – 10 th May 2016